



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Diolch

STAFF ADDYSGU CYMRU SCHOOL STAFF



Neges gan GwE ac Awdurdodau Lleol y Rhanbarth

Yn gyntaf, hoffem ddymuno'n dda i bawb wrth i chi ddychwelyd i'r ysgol. Hoffem gydnabod y gwaith sylweddol a wnaed gennych chi a'ch cyd-weithwyr wrth i chi agor yr ysgol i fwy o ddysgwyr. Mae datblygu a gweithredu strategaethau i ofalu am ieuchyd a lles eich staff a'ch pobl ifanc yn gyflawniad aruthrol gennych chi a'ch tîm. Ochr yn ochr â'r amryfal heriau sy'n eich wynebu, mae'r wythnosau sy'n weddill o'r tymor hwn hefyd yn gyfle i gysylltu ac i ail-gadarnhau perthynas gadarnhaol pobl â'i gilydd o fewn cymuned yr ysgol.

Gwerthfawrognwch yn ddiffuant eich ymwneud a'ch ymrwymiad parhaus i gydweithio a chydweithredu. Byddwn yn parhau i weithio gyda chyd-weithwyr ar draws y rhanbarth wrth i ni symud i'r 'normal newydd' yn nhymor yr Hydref.

Gwerthfawrognwch yn llwyr bod cynllunio ar gyfer y flwyddyn ysgol newydd yn digwydd ynghanol ansicrwydd ynghylch y pandemig a'r cyfyngiadau a allai fod mewn lle, neu beidio â bod mewn lle. Mae'n gwbl glir bod arnom angen dull hyblyg i ymateb i'r posibilrwydd o symud o un senario i senario arall mewn ymateb i batrymau'r firws.

Yn gynharach yr wythnos hon, rhannwyd canllawiau ar ddysgu cyfunol â chi. Ategir y rhain ymhellach gyda modelau posibl y byddwch efallai am eu hystyried i gefnogi eich paratodau. Rhennir y rhain â chi yn fuan.

Cadwch yn ddiogel.



Gwybodaeth a Chanllawiau GwE

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Dysgu Cyfunol

Cymerwch gipolwg ar y [Datblygu Dulliau Integredig i Gefnogi Dysgu Cyfunol ar gyfer Agor Ysgolion yn Raddol](#) a ddatblygwyd ar y cyd rhwng y 4 consortia ac Estyn i gefnogi ailagor ysgolion.

Gweminarau

Mae manylion pob Gweminar i'w cael [yma](#) ar ein gwefan. Bydd y dudalen yn cael ei diweddarau i gynnwys y gweminarau sydd i ddod a, phe baech yn methu un, bydd cyfle i chi ddal i fyny gyda'r gweminarau sydd wedi bod. Mae adnodd i gyd-fynd â'r sesiwn er mwyn eich cyfeirio at adnoddau dysgu proffesiynol pellach pe baech yn dymuno dysgu mwy am unrhyw agwedd a drafodwyd yn ystod y gweminar.

DAL I FYNFY

Cyflwyniad i Hwb i Ysgolion Cynradd (CYMRAEG)

Ceir rhagor o fanylion [yma](#).

Cyflwyniad i Hwb i Ysgolion Cynradd (SAESNEG)

Ceir rhagor o fanylion [yma](#).

Gweminar Uwchradd – Cyflwyniad i Hwb (Cymraeg)

[Dyma gyflwyniad](#) i holl wasanaethau Hwb sydd ar gael i bob athro a disgybl drwy'r wlad. Mae adnodd i gyd-fynd â'r sesiwn er mwyn eich cyfeirio at adnoddau dysgu proffesiynol pellach pe byddech am ddysgu mwy am unrhyw agwedd a drafodwyd yn ystod y gweminar – <https://spark.adobe.com/page/MAoDh3m4uv4Yb/>

Llygaid Pawb ar Gymru - Digwyddiad Ar-lein

DYDD IAU, 9 GORFFENNAF 2020 - 08:45 - 16:30

Yn y digwyddiad ar-lein hwn, cawn edrych ar y Cwricwlwm i Gymru gan ganolbwyntio ar Ddinasyddion moesol, gwybodus.

Cewch fod yn rhan o amryw o sesiynau yn ystod y dydd, a fydd yn dangos gwaith gwahanol sefydliadau i helpu cefnogi a datblygu pobl ifanc.

Ar gyfer pob sesiwn, bydd cod mynediad unigryw ar gyfer TEAMS. Gallwch gofrestru ar gymaint o sesiynau ag y mynnwch.

Mae dolenni i gofrestru wedi'i cynnwys yn y [rhaglen yma](#).

Cylchlythyr STEM Gogledd

[Cliciwch yma](#) am gopi o'r cylchlythyr diweddaraf



Dolenni Defnyddiol

Google Classroom i Gymorthyddion Dysgu

- [Cyfarwyddiadau ar sut i gael mynediad i'r dudalen drwy ddefnyddio eich cyfrif Hwb](#)
- [Cyfarwyddiadau dwyieithog ar sut i ddefnyddio Google Classroom](#)
- [Dolen i drosolais yn egluro beth sydd yn y Google Classroom](#)

Cysylltwch â WendyWilliams@gwegogledd.cymru i dderbyn y cod mynediad newydd ar gyfer y Google Classroom i Gymorthyddion Dysgu.



Adnoddau GwE ar Google Classroom

- [Arweiniad ar Google Classroom a Microsoft Teams](#)
- [Gwybodaeth bellach](#)

Diweddariadau Covid-19 GwE

- [Holl ddiweddariadau gwybodaeth GwE a anfonwyd i ysgolion](#)

Cylchlythyrau

- [Newyddlen y Gymraeg](#)

Gwybodaeth a Chanllawiau Llywodraeth Cymru

Rheoli Perfformiad

Mae LIC wedi bod mewn cysylltiad â'i chyfreithwyr i benderfynu a oes angen gwneud unrhyw newidiadau rheoleiddiol yn y drefn rheoli perfformiad dros y cyfnod hwn. Yr ystyriaeth allweddol yw sicrhau na fyddai unrhyw newidiadau a wnaed yn cael effaith ar ddatblygiad cyflog i athrawon a phenaethiaid. Daethpwyd i'r casgliad nad oes angen newidiadau rheoleiddiol, ond bod ysgolion yn gwneud fel y gwelont yn ddoeth a chymryd camau ymarferol, gan ystyried addasu eu Polisi Rheoli Perfformiad Ysgol yn unol â'r Rheoliadau, er mwyn cymryd yr amgylchiadau presennol i ystyriaeth. Er enghraifft, gallai ysgolion ystyried atal neu ohirio rhai amcanion dros dro.

[Cyhoeddwyd cyngor i ysgolion yn adran cwestiynau cyffredin y wefan.](#)

“Dod i'r Ysgol, Dal i Fyny, Paratoi ar gyfer yr Haf a mis Medi” - Pob ysgol yng Nghymru i ddechrau'r cam nesaf

[Cyhoeddiad y Gweinidog Addysg - 03/06/2020](#)

[Llythyr anfonwyd at Benaethiaid a Llywodraethwyr - 06/06/2020](#)

[Llythyr anfonwyd at Staff Ysgolion yng Nghymru - 12/06/2020](#)

[Cynlluniau ar gyfer cynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau](#)

[Cliciwch yma](#) i ddarllen y Datganiad Ysgrifenedig: Cyhoeddi canllawiau i gefnogi lleoliadau addysgol i gynyddu capasiti.

- [Canllawiau Gweithredol](#)
- [Canllawiau Gofal Plant](#)
- [Canllawiau ar ddysgu dros dymor yr haf](#)
- [Adran Cwestiynau Cyffredin - Llywodraeth Cymru](#)

CYSYLLTIADAU DEFNYDDIOL:

- [Rhaglen Cadw'n Ddiogel. Dal ati i Ddysgu](#)
- [Cyngor ar gyfer lleoliadau, ysgolion ac unedau cyfeirio disgyblion \(UCD\) i'w cefnogi yn eu gwaith gyda dysgwyr - Datblygu dulliau i gefnogi dysgu o bell](#)
- [Cefnogaeth i rieni/gofalwyr](#)
- [Offer dysgu o bell drwy Hwb](#)
- [Cyngor newydd i gynorthwyo arweinwyr ysgolion ac UCDAu i barhau â busnes ysgol](#)
- [Cefnogi eich plant i ddefnyddio'r Gymraeg gartref](#)
- [Pecyn Cymorth Iechyd Meddwl Pobl Ifanc](#)

Diweddariadau Covid 19 Llywodraeth Cymru

Mae dolenni defnyddiol eraill Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r coronafirws i'w gweld isod:

- [Gwefan](#) Coronafirws Llywodraeth Cymru
- Coronafeirws (COVID-19): [canllawiau lleoliadau addysgol](#)
- [Addysg a gofal plant: coronafeirws](#)
- Coronafeirws: [canllawiau teithio i sefydliadau addysg a myfyrwyr](#)
- Cyngor gan Iechyd Cyhoeddus Cymru <https://icc.gig.cymru/pynciau/gwybodaeth-ddiweddaraaf-am-coronavirusnewydd-covid-19/>
- Dilynwch ar Twitter [@LIC_Addysg](#) neu www.facebook.com/addysgcymru
- Cofrestrwch i dderbyn Dysg [yma](#)

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Prifysgol Bangor: Cyfarwyddyd Darllen a Sillafu Ar-lein Am Ddim

Ar hyn o bryd mae ymchwilwyr ac addysgwyr ym Mhrifysgol Bangor yn cynnig cwrs llythrennedd ar-lein AM DDIM ar gyfer disgyblion Cyfnod Allweddol 2 dros weddill y tymor a gwyliau'r haf. Mae'r gwersi drwy gyfrwng y Saesneg. Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer darpariaeth ar-lein ble byddant yn derbyn 8 wythnos o hyfforddiant llythrennedd, a ddarperir gan addysgwyr arbenigol, yn rhad ac am ddim. Gallant wneud hyn naill ai gartref neu, os yw'ch ysgol bellach ar agor, yn y dosbarth. Dim ond mynediad at gyfrifiadur a'r rhyngrwyd sydd ei angen. Y cyfan yr ydym yn gofyn i ysgolion ei wneud yw [anfon yr wybodaeth ymlaen at rieni](#). Rydym yn darparu'r rhaglen ynghyd â'r holl gymorth technegol.

Ceir rhagor o fanylion [yma](#).

Os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r astudiaeth hon neu os hoffech gael gwybodaeth bellach, anfonwch e-bost at Cameron Downing [c.downing@bangor.ac.uk] neu Manon Jones [manon.jones@bangor.ac.uk].

Llyfr newydd am bryderon plant ynghanol y pandemig

Wrth i blant ddychwelyd i'r ysgol, mae llyfr newydd yn trafod eu pryderon am bandemig Covid-19.

Bydd llyfr Jon Burgerman, *Everybody Worries*, yn cael ei gyhoeddi gan Rily o Gaerffili dan y teitl 'Mae gan bawb ofidiau'.

Y nod, medd Llinos Dafydd o Landysul a addasodd y llyfr, yw mynd i'r afael â'r emosiynau y mae'r coronafeirws wedi'u hamlygu.

[Dolen i'r e-llyfr Cymraeg](#). [Dolen i'r fersiwn Saesneg](#).

Swyddog Cyswllt Ysgolion Rhanbarthol (SC-RSLO) - Plant Milwyr

Bydd y pedwar SC-RSLO yn cael eu cyflogi gan yr awdurdodau lleol lletyol i weithio ar draws pum/chwe awdurdod lleol yr un mewn prosiect dwy flynedd, yn dechrau mis Medi 2020. Byddant yn cefnogi SSCE Cymru yn rhanbarthol, gan ganolbwyntio ar wreiddio arfer da mewn ysgolion ac awdurdodau lleol. Byddai Millie Taylor, rheolwr rhaglen SSCE Cymru, yn fwy na pharod i drafod manylion pellach gydag unrhyw ymgeiswyr sydd â diddordeb [☎ 02920 468 616].

[Hysbyseb swydd Cyngor Sir Ynys Môn](#)

[Hysbyseb swydd Cyngor Dinas Casnewydd](#)

DYDDIAD CAU: DYDD LLUN, 6 GORFFENNAF 2020



Y Cliciadur

Mae rhifyn diweddaraf Y Cliciadur ar gael ar [wefan HWB](#).

Dosbarthiadau Meistr Celfyddydau Mynegiannol am ddim

Mae'n bleser gan Gyngor Celfyddydau Cymru gyhoeddi cyfres o Ddosbarthiadau Meistr Celfyddydau Mynegiannol byw ac wedi'u recordio ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen hyd at ddysgwyr ôl-16.

Mae'r Dosbarthiadau Meistr Celfyddydau Mynegiannol yn amrywio o weithdai offerynnau taro Brasil, dawns, dylunio theatr, animeiddio, printio, sgets, a sut i greu podlediadau, dim ond i enwi rhai. Hyn oll yn rhad ac am ddim i ysgolion.

Am y diweddaraf ar ein gweithdai byw, dilynwch Cyngor Celfyddydau Cymru ar Twitter a Facebook.

Mae gwybodaeth ynglŷn â'r holl ddosbarthiadau meistr hefyd ar gael ar Barth Dysgu Creadigol HWB. Bydd y dudalen yn cael ei diweddarau'n rheolaidd: <https://hwb.gov.wales/zones/creative-learning/events/all?startDate=2020-06-15T00:00:00Z&category=6c528c8f-da4e-4ab8-9bfa-384ba5900c0e>

Am unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch â dysgu.creadigol@celf.cymru

Cyrsiau Sabothol Cymraeg

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth am y Cwrs Sabothol Cymraeg mewn Blwyddyn ac i wneud cais.

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth am y Cwrs Sabothol Cymraeg Lefel Ganolradd ac i wneud cais.

Gwybodaeth gan 'Blant yng Nghymru'

Galwad am Arfer Gorau a Syniadau Arloesol:
Pa ddulliau mae ysgolion yn eu defnyddio i gefnogi plant yn ystod COVID-19
Cewch fynediad i'r alwad [yma](#).

Adnodd Newydd: Canllaw bach Pris Tlodi Disgyblion yn awr ar gael
Gallwch gyrchu'r canllawiau bach [yma](#).

Prosiect Darllen Ar-lein Gogledd Cymru - Cadw Disgyblion i Ddarllen!

HEADSPROUT

Bellach, mae trwyddedau 90 diwrnod **RHAD AC AM DDIM** gan Headsprout, sy'n rhoi mynediad i hyfforddiant darllen a phecyn hyfforddiant cynhwysfawr ar-lein gan Brifysgol Bangor, sydd hefyd **AM DDIM**.

Am ragor o fanylion, [cliciwch yma](#).

Os hoffech chi ymuno â'r prosiect, neu ofyn unrhyw gwestiwn, anfonwch e-bost at sarah.e.roberts@bangor.ac.uk

post@gwegogledd.cymru

